AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Agweddau teithio: prif ganlyniadau, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (ATCC). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion gan bobl ledled Cymru. Ystadegau swyddogol o dan ddatblygiad yw'r data hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar agweddau teithio. Trwy hyn, rydym yn golygu barn ac agweddau ymatebwyr ar bynciau megis eu boddhad a'r teimlad o groeso a brofwyd ganddynt ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio. Mae hefyd yn cynnwys pa mor aml y maent yn defnyddio gwahanol ddulliau teithio.

Mae'r ATCC yn arolwg newydd, a'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf i Gymru ers 2012. Dylid cymryd gofal wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Gallai gwahaniaethau fod oherwydd gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir neu fethodolegau arolwg gwahanol yn ogystal â gwahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn yr arolwg cyntaf, gyda data wedi'i gasglu o sypiau sampl o fis Mawrth 2025 i Chwefror 2026. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ansawdd yn ein hadroddiad ansawdd.

Defnyddiwyd sawl term trafnidiaeth benodol yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi cynhyrchu dogfen ddiffiniadau er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth.

Prif ganfyddiadau

- Car, a cherdded ac olwynio oedd y dulliau a ddefnyddiwyd amlaf, gydag 82.7% a 69.2% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r dulliau hyn o leiaf unwaith yr wythnos, yn y drefn honno .
- Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'u taith a'u diogelwch o ran pob dull o deithio. Roedd boddhad cyffredinol y daith yn amrywio o 66.3% ar gyfer y rhai a feiciodd i 96.0% a ddefnyddiodd fferi neu gwch.
- Roedd boddhad â diogelwch yn amrywio o 59.4% i'r rhai a oedd yn beicio i 96.3% a ddefnyddiodd fferi neu gwch.
- Roedd 66.9% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael croeso wrth feicio, y gyfran isaf ar draws pob modd. Ar gyfer dulliau eraill, roedd y teimlad o groeso a adroddwyd fel arfer oddeutu neu fwy na 90%.

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer de-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n hafaldod i 100%.

Amlder teithio yn ôl modd

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr pa mor aml y gwnaethant deithio gan ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio yn ystod y 12 mis diwethaf.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio car o leiaf unwaith yr wythnos (82.7%). Dim ond 7.1% o'r ymatebwyr nad oedd yn defnyddio car o gwbl.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn cerdded neu'n olwynio o leiaf unwaith yr wythnos (69.2%). Dywedodd 17.9% o'r ymatebwyr nad oeddent yn cerdded nac yn olwynio o gwbl.
- Dim ond 9.3% o'r ymatebwyr dywedodd eu bod yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos tra bod 76.8% yn dweud nad oeddent yn beicio o gwbl.
- Roedd 17.7% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r bws o leiaf unwaith yr wythnos tra bod 44.4% o'r ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn defnyddio bws o gwbl.
- Mae 10.5% o'r ymatebwyr yn teithio ar y trên o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 31.1% nad oeddent yn teithio ar y rheilffordd o gwbl. Roedd 33.2% o'r ymatebwyr yn defnyddio rheilffordd yn fisol neu unwaith bob cwpl o fisoedd.
- Dim ond 6.7% o'r ymatebwyr a ddefnyddiodd tacsis o leiaf unwaith yr wythnos, o'i gymharu â 46.4% nad oeddent yn teithio mewn tacsi o gwbl. Roedd 23.6% yn defnyddio tacsis yn fisol neu unwaith bob cwpl o fisoedd.

Amlder teithio yn ôl modd yn ystod y 12 mis diwethaf

Ffigur 1: Pa mor aml y defnyddiodd ymatebwyr wahanol ddulliau teithio yn ystod 12 mis, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 1: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cerdded ac olwynio, seiclo, teithio mewn car, bws, trên, tacsi, trafnidiaeth gymunedol, cwch/fferi neu awyren o leiaf unwaith yr wythnos, o leiaf unwaith y mis, o leiaf unwaith y flwyddyn a dim o gwbl o fewn y 12 mis diwethaf. Car oedd y dull teithio uchaf a adroddwyd a ddefnyddiwyd o leiaf unwaith yr wythnos ar 82.7%. Dilynwyd hyn gan gerdded ac olwynio ar 69.2%. Trên oedd y dull teithio uchaf a adroddwyd a ddefnyddiwyd yn fisol neu unwaith bob cwpl o fisoedd ar 33.2% ac yna tacsi ar 23.6%. Dywedodd 85.2% o'r ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio trafnidiaeth gymunedol o gwbl, a dywedodd 80.4% nad oeddent yn defnyddio fferi neu gwch o gwbl.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amlder teithio.

Boddhad cyffredinol gyda'r daith

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried eu boddhad taith gyffredinol o'u taith ddiweddaraf yn ôl pob dull a ddefnyddiwyd.

- Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon (naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon) â'u taith. Beicio oedd â'r gyfradd foddhad isaf (66.3%), tra bod gan 'fferi neu gwch' y gyfran uchaf o ddefnyddwyr bodlon (96.0%).
- Dywedodd llai na 20% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n anfodlon (naill ai'n anfodlon iawn neu'n eithaf anfodlon) â'u taith ar gyfer pob modd.

Boddhad cyffredinol gyda'r daith yn ôl dull teithio

Ffigur 2: Canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n fodlon neu'n anfodlon â'u taith ar gyfer pob dull o ddefnyddio, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 2: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n fodlon neu'n anfodlon â theithio ar fferi neu gwch, awyren, tacsi, cerdded ac olwynio, bws, car, trên, trafnidiaeth gymunedol a beicio. Yn gyffredinol, roedd dros 80% o'r ymatebwyr yn fodlon â'r daith ar gyfer fferi neu gwch (96.0%), awyren (91.9%), tacsi (89.3%), cerdded ac olwynio (85.7%), bws (84.8%) a char (81.9%). Nododd ymatebwyr y lefel isaf o foddhad ar gyfer seiclo, sef 66.3%.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, boddhad â diogelwch a'r daith yn gyffredinol

Boddhad gyda diogelwch

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried boddhad â diogelwch o'u taith ddiweddaraf.

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon â diogelwch, yn amrywio o 59.4% a oedd yn seiclo i 96.3% a oedd yn defnyddio fferi neu gwch.

Lefelau boddhad â diogelwch yn ôl dull teithio

Ffigur 3: Canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n fodlon neu'n anfodlon â diogelwch ar gyfer pob dull teithio, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 3: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n teimlo'n fodlon neu'n anfodlon â diogelwch ar gyfer fferi neu gwch, awyren, tacsi, bws, trên, car, cerdded ac olwynio, trafnidiaeth gymunedol a seiclo. Roedd dros 80% o'r ymatebwyr yn fodlon â'r daith gyffredinol ar gyfer fferi neu gychod (96.3%), awyren (95.9%), tacsi (90.7%), bws (90.0%), trên (86.9%), car (85.7%) a cherdded ac olwynio (83.7%). Nododd ymatebwyr y lefel isaf o foddhad ar gyfer seiclo, sef 59.4%.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, boddhad â diogelwch a'r daith yn gyffredinol

Boddhad gyda'r daith yn gyffredinol o'i gymharu â boddhad â diogelwch

- Ar gyfer pob dull teithio heblaw cerdded ac olwynio a beicio, roedd ymatebwyr yn teimlo'n fwy bodlon â'u diogelwch o'i gymharu â'u teithiau yn gyffredinol. Y gwahaniaeth mwyaf oedd trên gydag 86.9% yn fodlon â'u diogelwch o'i gymharu â 78.6% yn fodlon â'u taith gyffredinol.
- Adroddodd yr ymatebwyr y lefelau isaf o foddhad ar o ran teithio yn gyffredinol a diogelwch ar gyfer beicio. Roedd hyn yn 66.3% ar gyfer boddhad cyffredinol a 59.4% ar gyfer boddhad â diogelwch.

Ymdeimlad o groeso

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi teimlo croeso neu groeso sylweddol wrth deithio. Roedd hyn yn amrywio o 66.9% a oedd yn beicio i 97.1% a oedd yn defnyddio fferi neu gwch.

Ymdeimlad o groeso fesul dull o deithio

Ffigur 4: Canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi teimlo croeso neu beidio fesul dull teithio, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 4: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n teimlo eu bod wedi cael croeso neu beidio ar gyfer fferi neu gwch, awyren, tacsi, bws, cerdded ac olwynio, trên, trafnidiaeth gymunedol a seiclo. Nododd yr ymatebwyr lefelau uchel o groeso ar gyfer fferi neu gwch (97.1%), awyren (95.6%), tacsi (93.7%), bws (91.2%), cerdded ac olwynio (90.8%), a thrên (88.6%). Nododd ymatebwyr y lefel isaf o groeso ar gyfer beicio, sef 66.9%.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, teimlo croeso ai peidio

Fforddiadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus

Rhennir cwestiynau ar fforddiadwyedd tocynnau ar gyfer bws a thrên rhwng y rhai sydd â cherdyn consesiynol neu docyn teithio gostyngol arall.

- Yn gyffredinol, ar gyfer teithio bws a thrên, adroddodd ymatebwyr deimladau tebyg o fforddiadwyedd gyda, a heb deithio gostyngol.
- Ar gyfer teithio ar fws, ymhlith unigolion heb deithio gostyngol, dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr y gallent fforddio teithio ar gyfer pob diben (47.3%).
- Ar gyfer y rhai sydd â theithio gostyngol ar gyfer bws, roedd gan 72.0% gerdyn neu docyn a oedd yn eu galluogi i deithio am ddim ac roedd 12.0% arall o'r ymatebwyr yn teimlo y gallent fforddio teithio at bob pwrpas wrth ddefnyddio eu tocyn.
- Dywedodd 35.1% o'r ymatebwyr heb deithio gostyngol eu bod yn gallu fforddio teithio ar y trên ar gyfer pob diben.

- I'r rhai sydd â theithio gostyngol ar gyfer y rheilffordd, roedd gan 15.6% gerdyn neu docyn a oedd yn eu galluogi i deithio am ddim a dywedodd 32.1% eu bod yn gallu fforddio teithio ar y trên at bob diben.

Boddhad gyda'r gallu i deithio'n annibynnol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor fodlon oedden nhw gyda'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol ar drên neu fws heb gymorth gan staff neu deithwyr eraill.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo'n fodlon â'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol ar fws (78.8%) a thrên (76.8%).
- Dywedodd mwy o ymatebwyr nad ydynt yn teithio gan ddefnyddio bws neu drên o'i gymharu â chanran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn teimlo'n anfodlon â'u gallu i deithio'n annibynnol. Dywedodd 9.7% o ymatebwyr nad ydynt yn teithio ar fws a dywedodd 5.2% o ddefnyddwyr bysiau eu bod yn teimlo'n anfodlon â'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol. Mae hyn yn debyg ar gyfer teithio ar y trên – nid yw 10.7% o'r ymatebwyr yn teithio ar y trên ac roedd 5.3% yn anfodlon â'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol.
- Mae cyfran yr ymatebwyr a nododd nad ydynt yn teithio ar fws neu reilffordd yn wahanol rhwng y cwestiwn hwn a'r cwestiwn amlder teithio. Gallai hyn fod oherwydd ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n fodlon â'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol pan nad ydynt wedi defnyddio bws neu drên yn y 12 mis diwethaf.

Boddhad â'r gallu ei hun i gael mynediad annibynnol at drafnidiaeth gyhoeddus

Ffigur 5: Canran yr ymatebwyr sy'n fodlon â'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol ar fws neu drên, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 5: Mae'r siart bar hwn yn dangos canran yr ymatebwyr sy'n fodlon â'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol ar fws a thrên. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â'u gallu i deithio'n annibynnol - 78.8% ar fws a 76.8% ar y trên. Dywedodd 5.2% a 5.3% eu bod yn teimlo'n anfodlon â'u gallu i deithio'n annibynnol ar fws a thrên yn y drefn honno. A dywedodd 9.7% a 10.7% nad ydynt yn teithio ar fws neu drên yn y drefn honno.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, fforddiadwyedd a boddhad ag annibyniaeth ar gyfer teithio ar fysiau a thrên

Boddhad gyda'r gallu i deithio'n annibynnol yn ôl statws anabledd

- O'r ymatebwyr anabl, dywedodd 60.7% eu bod yn fodlon â'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol ar fws, o'i gymharu ag 87.8% nad oeddent yn anabl.
- Mae hyn yn debyg ar gyfer trên gyda 57.4% o ymatebwyr anabl yn teimlo'n fodlon â'u gallu eu hunain i deithio'n annibynnol o'i gymharu ag 86.3% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl.
- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr anabl nad ydyn nhw'n teithio ar fws (18.4%) na thrên (22.0%) o'i gymharu â chyfran yr ymatebwyr nad ydynt yn anabl. Nid yw 6.9% o ymatebwyr nad ydynt yn anabl yn teithio ar fws ac nid yw 7.0% yn teithio ar y trên.

Sŵn

Gofynnwyd i bob ymatebydd a ydyn nhw'n cael eu poeni gan sŵn o'r tu allan i'w cartref. Yna gofynnwyd y math o sŵn i'r rhai a ymatebodd 'ie' . Gofynnwyd cwestiynau penodol ar draffig ffyrdd a sŵn gwaith adeiladu i'r rhai a ddewisodd y rhain fel ffynhonnell y sŵn.

- Dywedodd tua chwarter (26.3%) o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu trafferthu'n rheolaidd gan sŵn o'r tu allan i'w cartref.
- Adroddwyd mai traffig ffyrdd oedd ffynhonnell sŵn i 57.3% o'r ymatebwyr a sŵn gwaith adeiladu i 24.9% o'r ymatebwyr.
- Pan ofynnwyd iddynt am y math o sŵn traffig ffyrdd sy'n eu poeni, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod hyn wedi'i achosi gan geir (74.8%), ac yna beiciau modur (57.4%) a cherbydau nwyddau trwm neu adeiladu (50.5%).
- O ran y math o sŵn gwaith adeiladu, dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr nad oedd hyn o waith adeiladu ar y rhwydwaith rheilffyrdd neu ffyrdd (54.6%).
- Mae cyfran y bobl sy'n poeni am sŵn yn wahanol ar draws rhanbarthau Cymru. Roedd y gyfran uchaf o drigolion de-ddwyrain Cymru (27.4%). Trigolion canolbarth Cymru oedd â'r gyfran isaf (21.9%).

Sŵn aflafar yn ôl math o sŵn

Ffigur 6: Canran yr ymatebwyr sy'n poeni am sŵn yn rheolaidd a'r math o sŵn y maent wedi'i adrodd fel sŵn sy'n eu poeni, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 6: Mae'r siart bar hwn yn dangos canrannau'r gwahanol ffynonellau sŵn. Disgrifiodd 57.3% y sŵn fel sŵn traffig ffyrdd, disgrifiodd 24.9% fel sŵn adeiladu a disgrifiodd 7.5% sŵn trên. Disgrifiodd 37.5% o'r ymatebwyr y sŵn fel un arall neu ddim o'r opsiynau yr oeddem wedi'u darparu.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amhariadau swnllyd

Nodyn: Mae'r canran ar gyfer y math o sŵn yr oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn poeni amdano yw'r rhai a ddywedodd eu bod yn cael eu poeni gan sŵn yn rheolaidd (1,575 o bobl, 26.3%).